

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441
Ffacs: 01267 238317
E-bost: mail@utk.co.uk

Telephone: 01267 237441
Fax: 01267 238317
E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society **Accredited**

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif:
2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif:
471940

www.utk.co.uk

certainty.co.uk
the National Will Register

Gwneud Ewyllys



DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH

Beth yw Ewyllys?

Dogfen gyfreithiol yw Ewyllys sy'n nodi dymuniad unigolyn o ran rhannu ei asedau ar ôl iddynt farw a phenodi gwarcheidwad ar gyfer plant sydd dan 18 oed.

Pam ddylai hyn fod o ddiddordeb i mi?

Am nifer o resymau, gan gynnwys y canlynol:

- Gall y rheolau diewyllysedd, sy'n penderfynu sut y dylid dosbarthu asedau unigolyn sy'n marw heb ewyllys, arwain at ganlyniad tra gwahanol i'r hyn yr oeddech yn ei ddymuno, yn enwedig os bydd eich gwraig/gŵr/partner sifil yn eich goroesi a bod gennych asedau sylweddol.
- Os nad ydych, yn ysgrifenedig, wedi penodi gwarcheidwad ar gyfer eich plant sydd o dan 18 oed, mae'n debygol y bydd angen cael Gorchymyn Llys cyn y gellir penodi rhywun i gymryd cyfrifoldeb riant dros eich plant.
- Yn eich Ewyllys byddwch yn penodi Ysgutorion i weinyddu eich asedau, a bydd gan y bobl hynny'r awdurdod i ddechrau ar y gwaith hwnnw yn syth ar ôl i chi farw. Os nad oes gennych Ewyllys, bydd rhywun, gan amlaf eich perthynas agosaf yn gorfod cymryd y cyfrifoldeb dros sicrhau bod eich asedau yn cael eu gweinyddu yn unol â'r rheolau diewyllysedd. Ni chaiff yr unigolyn hwn ddelio â'r ystâd hyd nes y ceir Grant Llythrau Gweinyddu, sef y ddogfen sy'n awdurdodi'r unigolyn i weinyddu'r asedau, a gall y broses hon gymryd sawl mis.
- Gall diffyg Ewyllys sy'n nodi pwy ddylai dderbyn a gweinyddu eich asedau arwain at anghydweld difrifol ynghylch rhannu eich asedau a phwy ddylai eu gweinyddu. Mewn achos felly rhaid penodi Gweinyddwr sy'n gallu bod yn broses fympwyol iawn, gan ddibynnu pwy fydd y cyntaf i gyflwyno cais.
- Drwy wneud Ewyllys sydd wedi'i llunio'n ofalus gallwch chi a'ch etifeddion arbed treth etifeddu, yn enwedig os oes modd hawlio rhyddhad.



- Gallwch nodi trefn eich angladd a'ch dewis o ran claddu neu gorfflosgi, fydd yn help i sicrhau eich bod yn cael eich dymuniad. Yn yr un modd, gall Ewyllys hysbysu eich teulu am fodolaeth rhestr yn nodi sut y dylid rhannu eich eiddo personol, na fyddent fel arall yn ymwybodol ohoni.
- Efallai y byddwch yn dymuno diogelu eich asedau er budd eich teulu, er enghraifft, rhag hawliadau posib yn dilyn tor teulu neu o du allan i'r teulu. Neu, os yw'r sawl fydd yn eu cael yn y pen draw o dan oed a'ch bod am weld yr asedau yn cynyddu mewn gwerth, gellir cynnwys ymddiriedolaethau yn eich Ewyllys.
- Mae'n bosib eich bod yn gofidio y bydd angen gofal preswyl neu ofal nyrsio hir dymor ar eich gwraig, gŵr neu bartner ar ôl i chi farw, ac y gallai cost y gofal hwnnw leihau'n sylweddol gwerth yr ystâd a fydd yn y pen draw yn pasio i'ch plant neu fuddiolwyr eraill. Gellir defnyddio ymddiriedolaeth mewn Ewyllys i ddiogelu asedau, gan sicrhau eu bod yn pasio i'r genhedlaeth nesaf neu fuddiolwyr eraill o'ch dewis.
- Efallai y byddwch yn dymuno defnyddio ymddiriedolaethau i sicrhau, pe bai eich gŵr, gwraig neu bartner yn cychwyn teulu arall ar ôl i chi farw, bod eich asedau chi yn pasio i'ch teulu chi, er y bydd gan eich gŵr, gwraig neu bartner hawl i'w defnyddio a'u mwynhau yn ystod eu hoes.

Gall gwneud Ewyllys a gwybod eich bod wedi nodi eich dymuniad ar gyfer y dyfodol roi tawelwch meddwl gwirioneddol i chi. Bydd ein Cyfreithwyr arbenigol yn cyfarfod â chi i drafod eich Ewyllys ac unrhyw faterion cysylltiedig megis sut i gyflwyno mesurau diogelwch os digwydd i chi golli eich gallu meddyliol neu ddioddef anabledd corfforol difrifol, a goblygiadau gofal tymor hir. Byddant yn darparu cofnod o'r trafodaethau hyn ac esboniad ysgrifenedig o ddarpariaethau'r Ewyllys. Byddant hefyd yn eich arwain chi drwy'r broses o gwblhau eich Ewyllys ac yn cynnig cofrestru eich Ewyllys yn rhad ac am ddim gyda Certainty.

Os hoffech drafod hyn gyda ni, cysylltwch ag un o'n Cyfreithwyr arbenigol.